**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1001
Ein cyf/Our ref VG/05263/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

21 Medi 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig.

Mae'r cynllun ar gyfer Ysbyty Canser newydd yn yr Eglwys Newydd yn un o ddim ond tri chynllun sy'n cael eu datblygu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a ariennir drwy refeniw. Mae'r angen am Ysbyty Canser newydd ar gyfer poblogaeth De-ddwyrain Cymru wedi bod yn flaenoriaeth gydnabyddedig ers nifer o flynyddoedd, ac roedd yn un o'r ymrwymiadau yn y maniffesto ar gyfer y Llywodraeth.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cyflwyno Achosion Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Ysbyty Canser newydd, a'r gwaith galluogi cysylltiedig ar gyfer y cynllun. Mae fy swyddogion yn craffu ar yr Achosion Busnes Amlinellol, a byddaf yn derbyn cyngor ffurfiol er mwyn gallu penderfynu ar yr achosion busnes hyn maes o law. Felly, ni allaf wneud sylw ar hyn o bryd ar y materion penodol sydd wedi'u codi, gan y byddai hyn yn rhagfarnu unrhyw argymhellion a wneir i mi yn ddiweddarach.

Bydd y gwaith craffu manwl yn cynnwys holl agweddau ar y ddau Achos Busnes Amlinellol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r model clinigol a'r pwyntiau cysylltiedig yn eich llythyr ynghylch y lleoliad arfaethedig o safbwynt clinigol. Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi trafod y model clinigol ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ac wedi argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn cael cyngor annibynnol er mwyn llywio'r achos busnes a'r gwaith craffu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services